

Myfyrwyr ar baneli penodi staff

Beth rydym yn ei olygu?

Mae nifer o wahanol ffyrdd o greu diwylliant o bartneriaeth ystyrion yn eich sefydliad. Un ffordd bosib yw gwahodd myfyrwyr i eistedd ar baneli penodi staff. Mae hyn yn golygu rhoi grym iddynt fod yn rhan o'r broses benodi staff, heb o'r rheidwydd eu cynnwys nhw ar y panel cyfweld.

Er enghraifft, os byddwch chi'n bwriadu penodi Deon newydd a bydd angen iddo roi cyflwyniad fel rhan o'i broses benodi, gallai eich sefydliad alluogi myfyrwyr i weld y cyflwyniad hwn a rhoi eu hadborth i'r panel cyfweld, i sicrhau bod eu lleisiau wedi cael eu clywed.

Pam mae'n dda?

Gall cynnwys myfyrwyr mewn penderfyniadau ar lefel uchel helpu'n sylweddol wrth helpu i greu partneriaeth. **Os caiff myfyrwyr eu cynnwys yn y trafodaethau, bydd modd ennyn eu diddordeb yn fwy yn eu haddysg, yn ogystal â gwella penderfyniadau proffesiynol y staff.** Mae mwy i hyn na chasglu data goddefol – dyma glywed barn y myfyrwyr a chaniatáu iddynt gyfrannu at ddatblygiad y dysgu a'r addysgu yn y sefydliad. Mae Michael Fielding yn cyfeirio at hyn fel '**myfyrwyr yn ymatebwyr gweithredol**' yn ei bapur [Beyond Student Voice: Patterns of Partnership and the Demands of Deep Democracy](#).

Gall y broses hon elwa'r sefydliad a'r myfyrwyr yn fawr:

Sefydliad

- Elwa o gyfraniad y myfyrwyr
- Gweithio mewn partneriaeth yn gynnar yng ngyrfa staff newydd
- Gall sbarduno gwelliant mewn addysg, y cwricwlwm a'r berthynas rhwng yr athrawon â'r myfyrwyr

Mae mwy i hyn na chasglu data goddefol.

Myfyrwyr

- Ennill sgiliau a phrofiadau trosglwyddadwy gwerthfawr
- Gwell dealltwriaeth o'r broses benodi
- Elwa o'r well berthynas rhwng y sefydliad ac undeb/cymdeithas y myfyrwyr (os oes un)
- Cynnig ymdeimlad o rym

Ble i ddechrau

I sefydlu'r broses hon yn eich sefydliad, rhaid mynd trwy dri cham: cytuno ar y broses gyda'r uwch dîm rheoli, recriwtio a hyfforddi'r myfyrwyr, a chanfod sut mae modd iddynt gymryd rhan.

Cysylltu â'r uwch reolwyr

Os oes gan eich sefydliad undeb myfyrwyr neu staff annibynnol cymorth i fyfyrwyr, rydych mewn sefyllfa dda i fynd at yr uwch dîm rheoli. Naill ai trwy swyddogion etholedig neu staff cymorth i fyfyrwyr, bydd angen darbwyllo'r uwch reolwyr y bydd **cynnwys myfyrwyr yn y broses benodi yn fanteisiol i'r sefydliad yn ei gyfanrwydd**.

Ymhlith y pwyntiau i dynnu sylw atynt fydd ei effaith ar y myfyrwyr a'r sefydliad (gweler uchod), manteision partneriaeth myfyrwyr yn gyffredinol, ac ychydig iawn o ymdrech y bydd ei hangen i'w weithredu.

Ar ôl cytuno ar hyn, cewch ddechrau ystyried sut yn union i'w rhoi ar waith. Y cam cyntaf fyddai recriwtio a hyfforddi'r myfyrwyr a fydd yn eistedd ar y paneli.

Recriwtio a hyfforddi myfyrwyr

Yn y bôn, chi gaiff benderfynu sut i recriwtio'ch myfyrwyr. Mae rhai sefydliadau wedi dethol myfyrwyr sy'n awyddus ac yn ymroddgar i'w rôl fel cynrychiolydd, er enghraifft, ond mae'n bosib y byddwch yn dewis mabwysiadu ymagwedd fwy ffurfiol sy'n cynnwys gwneud cais.

Rhoi grym i fyfyrwyr i wneud y mwyaf o'r sefyllfa.

Unwaith i chi recriwtio'ch myfyrwyr, fe'ch cynghorir i gynnal hyfforddiant cryno ynglŷn â'r hyn i'w ddisgwyl, unrhyw beth y mae angen iddynt fod yn ymwybodol ohono, sut i roi adborth a sut caiff eu barn ei defnyddio i helpu i wneud penderfyniad terfynol. Bydd angen i chi roi gwybodaeth iddynt ar yr ymgeisydd hefyd. Bydd paratoi myfyrwyr fel hyn yn helpu i gael y gorau ohonynt yn ystod y broses recriwtio. Hefyd, bydd hyn yn **rhoi grym iddynt i wneud y mwyaf o'r sefyllfa**. Os bydd modd iddynt ddeall sut caiff eu barn ei ddefnyddio, byddant yn fwy tebygol o fod am roi mewnbwn.

Sut gall myfyrwyr gymryd rhan

Dyma ambell enghraifft o ddulliau y gallwch eu defnyddio i gynnwys dysgwyr yn y broses penodi staff, gan ddibynnu ar y rôl sydd dan sylw:

Staff addysgu

Mae Coleg Dewi Sant yn gofyn i'w hymgeiswyr gynnal gwrs enghreifftiol, a gaiff ei hasesu gan y dysgwyr yn y dosbarth. Yna, caiff eu barn ar yr athro eu bwydo yn ôl i'r panel dethol, sy'n ei hystyried cyn penodi unigolyn i'r swydd.

Mae'r dull hwn yn ffordd ardderchog o gynnal partneriaeth myfyrwyr gan mai'r dysgwyr fydd yn gweithio'n agos â staff addysgu, felly dylid ceisio a gwerthfawrogi eu barn. Yr athrawon mwyaf effeithiol yw'r rheiny sy'n ymgysylltu'n dda â'u myfyrwyr, felly mae'n ddoeth ceisio'u cymeradwyaeth yn ystod y cyfnod penodi.

Uwch staff rheoli

Mae Prifysgol De Cymru wedi rhoi'r strategaeth hon ar waith wrth benodi Deoniaid ac mae'r canlyniadau wedi bod yn hynod fuddiol.

Mae cynrychiolwyr llais y myfyriwr yn eistedd ar y panel sy'n creu rhestr fer, ynghyd â swyddogion etholedig a staff, a rhoddir cyflwyniad iddynt gan yr unigolyn sy'n gwneud cais ar gyfer y rôl. Mae'r panel cyfweld yn wahanol ac nid yw'n cynnwys myfyrwyr, ond ar ôl y cyfweliad, mae'r holl banelwyr yn dod at ei gilydd i drafod yr ymgeiswyr.

Cafodd staff Prifysgol De Cymru y dull hwn yn ddefnyddiol ar gyfer cyflwyno undeb y myfyrwyr i'r ymgeisydd o'r cychwyn cyntaf. Roedd hyn yn golygu bod eu perthynas yn fwy cyfeillgar na'u perthynas â'r rheiny nad oeddent wedi cyrraedd rhestr fer y myfyrwyr.

Crynodeb

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â Wise Cymru (manylion isod).

Adnoddau

- [Beyond Student Voice: Patterns of Partnership and the Demands of Deep Democracy](#)
- [Listening to Learners, UEL](#)

Jessica Rumble,
Ymgynghorydd Prif / Lead Consultant

jessica.rumble@nus-wales.org.uk

Charlotte West,
Ymgynghorydd / Consultant
charlotte.west@nus-wales.org.uk